Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Care Crew Dom Care**

**36 Charles Street**
**Casnewydd**
**NP20 1JT**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Care Crew Dom Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Care Crew Limited |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 12 Rhagfyr 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael gan y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt gydberthnasau da â'r staff gofal cyfarwydd. Caiff y staff gofal eu cefnogi i gwblhau galwadau gofal rheolaidd, sydd wedi gwella cysondeb y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Caiff y rota staff ei gynllunio o flaen llaw, gan ganiatáu digon o amser teithio; mae'r staff gofal yn gyfarwydd â'u llwybrau.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi yn unol â'u cynlluniau personol, sy'n rhoi arweiniad manwl i'r staff gofal ei ddilyn. Caiff anghenion a dewisiadau'r bobl o ddydd i ddydd eu hystyried gan y gwasanaeth. Mae'r staff goruchwylio yn cwblhau adolygiadau o gynlluniau personol ar y cyd â'r bobl a'u teuluoedd er mwyn sicrhau bod gan y staff gofal ganllawiau cyfredol i'w cefnogi.

Mae'r rheolwr wedi cynyddu cyfleoedd datblygu a chymorth ar gyfer y staff gofal; gan gynnwys cymorth gyda sgiliau Saesneg ar gyfer staff nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gydberthnasau'r bobl â'r staff gofal. Mae'r staff gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn canmol yr hyfforddiant y maent yn ei gael. Mae'r tîm rheoli wedi gwella'r prosesau sicrhau ansawdd ac yn eu defnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i arfer dewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r goruchwylwyr gofal yn cwrdd â'r bobl i adolygu eu gofal a chymorth ac yn cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu bryderon. Rhoddir ystyriaeth i ddewisiadau'r bobl yn ystod adolygiadau, a chaiff y bobl gyfle i leisio eu barn am bwy sy'n eu cefnogi a phryd. Dywedodd rhai o'r bobl wrthym eu bod wedi cael trafferth cyfathrebu weithiau wrth gael cymorth gan staff nad ydynt yn siarad Saesneg yn rhugl, ond dywedodd y mwyafrif o'r bobl wrthym eu bod wedi gweld gwelliant mawr yn y maes hwn. Siaradodd nifer am y gwelliant hwn a'r effaith gadarnhaol y mae tîm cyson o staff gofal wedi ei chael. Gwnaethant ddweud wrthym fod hyn wedi'u helpu i feithrin cydberthnasau cadarnhaol. Dywedodd un unigolyn, *“Couldn’t do better, they are really good.”*

Mae'r adborth gan y bobl a'u teuluoedd yn gadarnhaol iawn am y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r staff gofal yn trin y bobl ag urddas a pharch, ac yn gweithio'n gyson i gefnogi llesiant corfforol, emosiynol, a meddyliol y bobl. Dywedodd un teulu wrthym, *“They give us confidence that we are in safe hands.”* Caiff y bobl eu cefnogi i gadw'n iach ac yn egnïol. Mae cynlluniau'r bobl yn amlinellu eu hanghenion gofal a chymorth yn fanwl iawn, sy'n helpu i sicrhau cysondeb gofal. Lle y caiff newidiadau i iechyd y bobl eu nodi, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i gydweithio ag asiantaethau proffesiynol eraill fel y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol. Mae'r rheolwr yn cymryd camau i sicrhau bod y bobl yn cael cymorth i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant arbenigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn pan fydd anghenion unigolyn yn newid ac os bydd angen mwy o gymorth arbenigol. Mae'r bobl yn cyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag un unigolyn i gynllunio a chynnal ei weithdy ei hun er mwyn hyfforddi'r staff am ei gyflyrau iechyd a'r effaith arno.

Ceir canllaw ysgrifenedig ar y gwasanaeth sy'n amlinellu'r cyfleoedd sydd ar gael i'r bobl ac yn esbonio'r gofal a'r cymorth y gall y gwasanaeth eu darparu ac na all eu darparu. Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau cymorth ychwanegol sydd ar gael i'r bobl, ynghyd â chanllawiau i'w galluogi i gael gafael ar wasanaethau os oes angen. Mae gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefnau diogelu clir ar waith a chaiff camau gweithredu eu cymryd pan fo angen i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r rheolwr yn goruchwylio unrhyw ddigwyddiadau diogelu yn dda ac yn rhoi gwybod i'r asiantaethau perthnasol fel y bo'n briodol. Mae'r bobl yn gwybod sut i godi unrhyw bryderon ac mae'r gwasanaeth yn eu galluogi i wneud hyn.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael budd o'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael gan y gwasanaeth. Dywedodd un unigolyn wrthym *"Couldn't thank them enough, wonderful."* Mae'r newidiadau i'r rota staff wedi galluogi'r staff gofal i ymweld â'r bobl yn gyson, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gydberthnasau'r bobl â nhw. Mae'r bobl yn canmol y cydberthnasau y maent wedi'u meithrin â'r staff gofal, ac mae'r adborth i'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol am eu cymorth yn gadarnhaol yn rheolaidd. Pan ofynnwyd am y gwasanaeth, dywedodd un unigolyn wrthym, *"Would recommend them anywhere."* Dywedodd wrthym ei fod yn cael hwyl gyda'r staff gofal a bod ganddo gydberthynas dda â nhw. Mae'r bobl yn cydnabod y gwelliannau y mae'r staff wedi'u gwneud o ran eu sgiliau Saesneg a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar gyfathrebu. Mae hyn wedi cael ei gefnogi gan y gwasanaeth drwy gyrsiau iaith achrededig a chymorth ychwanegol yn y gwasanaeth. Er nad yw'r gwasanaeth yn darparu Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar hyn o bryd, gall y staff gofal ddarparu cymorth i'r bobl mewn sawl iaith, gan adlewyrchu anghenion y gymuned.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Caiff y bobl eu hannog i barhau i wneud gweithgareddau bob dydd yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r rheolwr wedi sicrhau bod y staff gofal yn cael hyfforddiant ar Gymorth Gweithredol, sef model gofal sydd wedi'i ddylunio i alluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lesiant meddyliol a chorfforol y bobl, gyda'r bobl yn dangos gwelliannau o ran eu symudedd a'u gallu i ymgysylltu â'r gymuned o ganlyniad i'r ymyriad hwn. Caiff cynlluniau personol eu llunio mewn ymgynghoriad â'r bobl a'u teuluoedd ac maent yn ystyried eu dymuniadau a'u dyheadau. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl iawn ac yn ystyried gwybodaeth o amrywiaeth o asesiadau a ffynonellau proffesiynol. Mae'r gwasanaeth yn ystyried risgiau ac anghenion arbenigol fel rhan o'r broses o gynllunio gofal. Mae'r asesiadau risg yn darparu cyd-destun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn galluogi'r staff gofal i gefnogi'r bobl i gymryd risgiau cadarnhaol mewn ffordd ddiogel. Mae'r staff gofal yn cadw cofnodion gofal cyfredol o'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl.

Mae gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefnau meddyginiaeth sy'n cyd-fynd â'r canllawiau arfer gorau cyfredol. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi rhai o'r bobl i reoli a rhoi eu meddyginiaeth. Mewn achosion o'r fath, mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar gymhwysedd wrth roi meddyginiaeth yn ddiogel ac mae'r rheolwr yn archwilio ac yn adolygu'r prosesau meddyginiaeth yn rheolaidd. Lle y caiff gwallau eu nodi, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau amserol a phriodol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r rheolwr wedi ymgorffori systemau ar gyfer archwilio ac adolygu prosesau ers yr arolygiad diwethaf. Caiff gwybodaeth ei chasglu a'i dadansoddi gan y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol a'i defnyddio i nodi meysydd o arfer da yn ogystal â meysydd i'w datblygu. Mae'r rheolwr wedi datblygu diwylliant o wella'n barhaus ac mae'n cefnogi'r tîm ehangach i weithredu pan fo angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn ceisio adborth gan y bobl, eu teuluoedd a'r staff. Caiff adborth ei ystyried a'i ddefnyddio i bennu camau gweithredu a nodau ar gyfer y gwasanaeth. Caiff hyn ei grynhoi mewn adroddiad ar ansawdd y gofal a gaiff ei baratoi gan yr Unigolyn Cyfrifol.

Mae digon o staff ar ddyletswydd i gefnogi'r bobl yn effeithiol, ar yr adegau cywir. Mae'r rota staff wedi cael ei ailystyried er mwyn sicrhau bod y galwadau gofal yn cael eu cynllunio'n ddaearyddol, gan leihau amser teithio a chynyddu cysondeb y staff gofal i'r bobl. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael digon o amser i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â chynlluniau personol y bobl. Mae'r gwasanaeth wedi ystyried adborth gan y staff gofal yn ymwneud â thaliadau milltiroedd ac amser teithio ac mae'n gweithio i gynyddu'r taliadau er mwyn cefnogi'r staff gofal gyda chostau byw; mae hyn yn parhau.

Caiff y staff gofal eu recriwtio a'u hyfforddi’n addas, a'u cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym *“Management teams are really great and attentive.”* Mae'r gwasanaeth yn dilyn arferion recriwtio diogel ac yn cefnogi'r staff i ennill cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a chofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Caiff sgiliau hanfodol eu profi a'u hystyried fel rhan o'r broses gyfweld. Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn cael cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus i sicrhau arferion gwaith diogel. Gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant sydd wedi'u hachredu gan gyrff dibynadwy fel y GIG. Mae'r staff gofal yn cael sesiynau cymorth a goruchwylio amserol lle y caiff cymhwysedd a hyder eu trafod, ac amcanion eu pennu. Mae'r staff goruchwylio yn cael hyfforddiant ar sut i gefnogi'r staff gofal yn effeithiol. Mae hyn yn digwydd yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn darparu cymorth a goruchwyliaeth o ansawdd da. Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd lle y gall y staff ofyn cwestiynau a chaiff unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau eu trafod. Mae'r rheolwr yn pennu disgwyliadau clir ar gyfer y gwasanaeth ac yn cefnogi'r tîm i gyflawni'r rhain. Pan ofynnwyd iddo am y darparwr, dywedodd un aelod o'r staff wrthym, *“They treat employees well.”*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 73 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi dangos ei fod yn cyfarfod â'r staff nac yn casglu adborth ganddynt fel rhan o'i ymweliadau rheoliadol â'r gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol newydd wedi gwneud trefniadau ar gyfer (a) ystyried canlyniad y gwaith ymgysylltu ag unigolion ac eraill, fel sy'n ofynnol gan reoliad 76; (b) dadansoddi'r data cyfanredol ar ddigwyddiadau, digwyddiadau hysbysadwy, materion diogelu, chwythu'r chwiban, pryderon a chwynion; (c) adolygu unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chwynion; (d) ystyried canlyniad unrhyw archwiliad o gywirdeb a chyflawnrwydd cofnodion. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/10/2024